Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenwyr ifanc!

# Dod i adnabod

# Siân Lewis







## Crynodeb:

Dyma'r dilyniant i gyfrol arobryn Gwobr Tir na n-Og 2016, Pedair Cainc y Mabinogi. Cynhwysir tair stori allweddol yn y llyfr hwn:

1. Y Tywysog a Merch y Cawr - Stori Culhwch ac Olwen;
2. Lludd a Llefelys;
3. Breuddwyd yr Ymherawdwr.

Dyma greadigaeth swynol arall gan y tîm arobryn, yr awdures Siân Lewis a'r arlunydd Valériane Leblond.



## Bywgraffiad

"Dwi'n enedigol o Aberystwyth ac yn dal i fyw yn yr ardal. Ar ôl graddio mewn Ffrangeg o Brifysgol Caerdydd, bues i'n llyfrgellydd, ac yna'n olygydd yn Adran Gylchgronau'r Urdd am gyfnod. Wedi hynny dwi wedi gweithio'n llawrydd ac yn mwynhau cerdded a datrys posau yn fy amser sbâr."

**Fel person ifanc, pwy neu beth wnaeth ddylanwadu arnat?**

Ro'n i'n hoff iawn o ddarllen, pan o'n i'n blentyn. Ro'n i'n byw drws nesa i'r ysgol bentref lle roedd fy nhad yn brifathro, a phob nos, pan oedd yr ysgol yn cael ei glanhau, roedd gen i'r llyfrgell i mi fy hun. Yn ogystal â llyfrau, ro'n i'n dwlu ar gomics ac yn derbyn sawl un, gan gynnwys *Hwyl*. Diwrnod braf oedd diwrnod casglu comics o'r siop.

**Beth yw dy hoff genres darllen, a pha lyfrau wyt yn darllen ar hyn o bryd?**

Dwi'n darllen tipyn o bopeth, yn enwedig nofelau cyfoes. I ymlacio, dwi'n mwynhau llyfrau ditectif. Y llyfr ditectif cynta ddarllenais i oedd *Trysorau Hafod Aur* gan Meirion Jones. Chwech oed o'n i ar y pryd, ac fe gododd dipyn o ofn arna i. Dwi'n dal i deimlo rhyw ias fach wrth feddwl amdano. Ond, ofn neu beidio, dwi'n dal i fwynhau.

**Pa brofiadau o lyfrgelloedd sydd wedi dylanwadu arnot yn ystod dy fywyd?**

Fy atgof cyntaf o lyfrgell yw fan lyfrau â mainc fach gyfforddus yn y cefn. Mae meddwl amdani'n dal i roi teimlad o gysur a phleser a chyffro. Yn naw oed des yn aelod o lyfrgell Aberystwyth. Roedd honno'n groesawgar, yn gyffrous, ac yn gysurus hefyd – ac mae'n dal i fod. Ac wrth gwrs, gan fy mod yn byw ger Aberystwyth, mae'r Llyfrgell Genedlaethol wrth law gyda'i stôr o wybodaeth.

**Pa awgrymiadau sydd gyda ti i annog plant a phobl ifanc i ddarllen mwy er pleser?**

Mae cyrlio mewn cadair â llyfr ar eich glin yn brofiad hollol wahanol i wylio stori ar sgrin. Sut un yw Harry Potter? Os ydych chi'n wedi gwylio'r ffilmiau, byddwch yn meddwl yn syth am Daniel Radcliffe. Ond, gyda llyfr ar eich glin, chi sy'n penderfynu sut un yw e. Chi yw'r cyfarwyddwr. Chi sy'n dod i nabod y cymeriadau yn eich ffordd eich hun ac yn creu ffilm yn eich dychymyg. Mae llyfrau'n llawn digwyddiadau a chymeriadau, sy'n disgwyl amdanoch. Dewch i'w nabod a dod â nhw'n fyw.



RILY www.rily.co.uk

Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A ar wefan llyfrgelloedd.cymru